

Annwyl Glerc/Gyngor

Aelodaeth Un Llais Cymru 2025-26

Ysgrifennaf atoch i wahodd eich cyngor i adnewyddu ei aelodaeth i ymuno ag Un Llais Cymru o 1 Ebrill 2025. Unwaith eto, gwelwyd nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn ein gwasanaethau ac i'r sector cynghorau cymuned a thref yn gyffredinol dros y flwyddyn ddiwethaf, a chredwn eu bod yn ychwanegu'n arwyddocaol at y gwerth am arian y mae aelodaeth Un Llais Cymru yn ei gynnig.

Rydym yn parhau i gynrychioli'r sector mewn nifer fawr o ffyrdd gwahanol. Rydym wedi cynnal a datblygu ymhellach ein perthynas waith gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) – llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ym mis Hydref 2024, NALC, yr SLCC a nifer o gyrff cyhoeddus eraill gan gryfhau llais y sector o fewn teulu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gwella'r berthynas waith gyda'r Trydydd Sector.

Mae Un Llais Cymru yn parhau i wneud cyfraniadau o bwys i ddatblygiadau polisi cyhoeddus trwy ein cynrychiolaeth ar nifer o baneli ymgynghorol Llywodraeth Cymru ac mae Un Llais Cymru yn chwarae rôl gynyddol yn datblygu adnoddau ar gyfer y sector.

Fel y gwyr aelodau cyfredol, rydym yn darparu'r gwasanaethau canlynol a amlinellir isod, a gwyddom o adborth gan ein haelodau fod pob agwedd ar y gwasanaeth yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

- **Darparu cyngor cyfreithiol rhad ac am ddim** gan dîm o gyfreithwyr profiadol, all arbed cryn dipyn o amser a chost i aelodau o gymharu â defnyddio cyfreithwyr lleol i gael cyngor. (Yn aml iawn mae'r arbedion hynny'n gallu bod yn fwy na chost tâl aelodaeth).
- **Cyngor a chefnogaeth brydlon ac o ansawdd** ar faterion sydd o bwys i aelod gynghorau.
- **Hyfforddiant** i aelodau a staff, gan gynnwys seminarau polisi a chyfleoedd gwaith newydd.
- **Gwybodaeth gyffredinol trwy ein gwefan, gan gynnwys llecyn aelodau**
- Rhifynnau **misol** o'n '**E-Fwletin**' newydd
- **Cynrychioli'r** sector ar Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.
- Creu **cyfleoedd newydd i gydweithio** gyda mudiadau cenedlaethol ledled Cymru.

Mae'r agenda **hyfforddiant a datblygu** yn faes arall lle y gwelwyd cryn ddatblygu yn ystod 2024/25, wrth inni barhau i gyflwyno rhaglen lwyddiannus o hyfforddiant trwy weminarau a chynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael.

Mae ein **Gwasanaethau Ymgynghoriaeth** wedi bod yn tyfu'n gyflym, ac mae llawer o gynghorau yn manteisio ar y gwasanaeth hwn. Rydym fwy a mwy yn gallu darparu atebion 'Canolfan Un Alwad' ar gyfer ein haelodau.

Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru - The Voice of Community and Town Councils in Wales

Er mwyn i'ch cyngor gael llais yn nyfodol y sector llywodraeth leol hollbwysig hwn, ac er mwyn elwa o'r gefnogaeth y mae Un Llais Cymru yn ei darparu, **gofynnir ichi lenwi a danfon y Ffurflen Aelodaeth atodedig trwy e-bost neu i'n swyddfa yn Rhydaman - mae'r cyfeiriad ar ddechrau'r llythyr hwn.**

Dylech gofio fod ein haelodaeth yn rhedeg bob blwyddyn o'r 1af Ebrill i'r 31ain Mawrth. Byddwn yn eich cadw'n aelodau yn awtomatig yn ystod blwyddyn ariannol newydd ac yn parhau i'ch cefnogi ond gofynnwn ichi sicrhau y gwneir y taliad erbyn 30 Mehefin 2025 man pellaf. Os ydych yn cael unrhyw broblemau gyda chyfrifon banc ac ati cofiwch roi gwybod inni.

Os nad ydych yn dymuno parhau yn aelodau, gofynnwn ichi roi gwybod inni'n syth fel na fydd eich cyngor yn wynebu unrhyw gostau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am aelodaeth, cofiwch fod croeso ichi gysylltu â'r swyddfa ar 01269 595400 / 07917 846510 neu e-bostio: tjilmartin@unllaiscymru.cymru

Hyderaf y bydd eich Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwahoddiad hwn a gobeithiaf allu eich croesawu yn aelod cyn bo hir. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'ch cyngor yn 2025-26.

Yn gywir,



Mr Lyn Cadwallader
Prif Weithredwr